

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – Cam Gweithredu Rhif 14 – Gwybodaeth a ddarperir gan Siôn Williams, Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn

Defnyddio bylchau dianc mewn cewyll cimychiaid/crancod yn nyfroedd Cymru

Manteision ac anfanteision

a) **Manteision**

1. *Rhyddhau ar unwaith i'r cynefin lleol*

Byddai gosod bylchau dianc ar gewyll cimychiaid yn galluogi cimychiaid o dan y maint glanio lleiaf cyfreithlon i ddychwelyd i'w llochesau hysbys ar wely'r môr gan leihau'r risg o niwed wrth eu trin ar fwrdd cychod, y risg sy'n gysylltiedig ag ysglyfaethu a'r risg o darfu ar eu cyfradd twf o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag aer.

2. *Niwed yn y cewyll*

By allowing under the legal MLS lobsters to escape from the pots, damage or even mortality to lobsters and other shellfish/fish within the pot less mutilated shellfish will produce a higher return to the fishery over time. Bydd llai o niwed yn digwydd i'r pysgod cregyn pan gaiff y cewyll eu gwagio ar gychod.

3. *Gwella effeithlonrwydd cewyll*

Mae gosod bylchau dianc yn gwella effeithlonrwydd cewyll drwy eu galluogi i ddal mwy o grancod a chimychiaid dros y maint glanio lleiaf cyfreithlon. Mae gosod bylchau dianc yn golygu bod angen treulio llai o amser yn gweithio cewyll.

4. *Gwella gallu cimychiaid a chrancod brown ifanc i oroesi*

Bydd defnyddio bylchau dianc yn gwella gallu cimychiaid a chrancod brown ifanc i oroesi, gan helpu i gynnal pysgodfa gynaliadwy.

5. *Glanio cimychiaid llai na'r arfer*

Byddai defnyddio bylchau dianc yn golygu bod llai o gyfle i bysgotwyr anghyfreithlon, boed yn rhai masnachol neu hamdden, lanio cimychiaid llai na'r arfer.

6. *Pysgota anfwriadol*

Byddai defnyddio bylchau dianc yn lleihau effaith pysgota anfwriadol ar gewyll coll.

Yn ychwanegol at osod bylchau dianc, dylid defnyddio mesurau technegol bioddiraddadwy sy'n galluogi paneli neu ddulliau cau drysau penodol i fethu ar ôl cyfnod penodedig o amser, gal olygu bod modd i bysgod cregyn/pysgod a ddaliwyd ddianc. Byddai hyn yn fuddiol iawn i gynaliadwyedd y bysgodfa.

7. *Ei gwneud yn orfodol defnyddio bylchau dianc mewn cewyll hamdden*

Byddai defnyddio bylchau dianc mewn cewyll hamdden yn fuddiol am eu bod yn cael eu pysgota'n llai aml ac yn fwy tebygol o gael eu gadael a dal pysgod yn anfwriadol.

b) **Anfanteision bylchau dianc**

1. *Mwy o dargedu cimychiaid o faint cyfreithlon*

Byddai cyflwyno bylchau dianc yn gwella effeithlonrwydd cewyll drwy olygu bod modd dal mwy o gimychiaid dros 90mm

2. *Creu tuedd o ran cymhareb rhyw y rhai sy'n dianc*

Byddai cyflwyno bylchau dianc yn golygu bod mwy o wrywod na benywod o fewn ystod gyfreithlon y maint glanio lleiaf yn gallu dianc am fod gan y gwrywod gragen a chynffon gulach na'r benywod. Gallai hyn greu anghydbwysedd biolegol posibl.

3. *Llai o Grancod Llygatgoch yn cael eu dal*

Byddai cyflwyno bylchau dianc yn golygu bod llai o laniadau Crancod Llygatgoch.

4. *Cost prynu a gosod bylchau dianc*

Byddai cost prynu bylchau dianc a'r amser a dreulir yn eu gosod yn cael effaith economaidd.

5. *Colli rhai cimychiaid*

Gallai fod colled ariannol fach i'r pysgotwr os bydd rhai cimychiaid sydd dros y maint glanio lleiaf cyfreithlon yn dianc drwy'r bylchau dianc.

6. *Colli corgimychiaid*

Byddai gosod bylchau dianc ar gewyll yn arwain at golled o ran glaniadau corgimychiaid.

Cyfeiriadau:

Brown, C.G. (1978). Trials with escape gaps in lobster and crab traps. Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr, Pwyllgor Pysgod Cregyn. Brown, C.G. (1979). Trials with escape gaps in lobster and crab pots. Fish. Not., MAFF Direct. Fish. Res., Lowestoft. 62. Brown, C.G. (1982). The effect of escape gaps on trap selectivity in the United Kingdom crab (*Cancer pagurus* L.) and lobster (*Homarus gammarus* (L.)) fisheries. J. Cons. Int. Explor. Mer., 40, 127-134. Brown, R. S. a Caputi, N. (1985). Factors affecting the growth of undersize western rock lobster, *Panulirus cygnus* George, returned by fishermen to the sea. Fishery Bulletin, 83(4): 567- 574. Cefas (2011). 'Cefas Stock Status 2011: European lobster (*Homarus gammarus*) in Northumberland & Durham'. [ar-lein] ar gael yn: <http://www.cefas.defra.gov.uk/media/580090/lobster%20northumberland%202011.pdf> Cefas (2015). European Lobster (*Homarus gammarus*) in Northumberland and Durham. Stock Factsheet 2015. Clark, R. (2007). Lobster escape hatches in Selsey. Shellfish News. 24. Conan, G.Y. (1987). A generalised model for predicting sizespecific retention of lobsters in traps fitted with an escape gap. Adroddiad Pwyllgor Pysgod Cregyn Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr: CM1987/K:24. Lovewell, S.R., Addison, J.T., Dapling, T. a Dillon, B. (2000). Joint study on the effect of escape gaps in crab and lobster pots in a candidate Special Area of Conservation on the north-east coast of England and Wales. Maynard, D.R., Branch, N., Chiasson, Y. a Conan, G.Y. (1987). Comparison of three lobster (*Homarus americanus*) trap escape mechanisms and application of a theoretical retention curve for these devices in the southern Gulf of St. Lawrence lobster fishery. Dogfen Ymchwil CAFSAC 87/87. Canadian Atlantic Fisheries Scientific Advisory Committee. Murray, L.G., Hinz, H. a Kaiser, M.J. (2009). Lobster escape gap trials. Adroddiad Pysgodfeydd a Chadwraeth Rhif 9, Prifysgol Bangor. tt.11. Pantin, J. R., Murray, L. G., Cambiè, G., Le Vay, L., a Kaiser, P. J. (2015). Escape Gap Study in Cardigan Bay: consequences of using lobster escape gaps. Fisheries and Conservation Science. Schlmerdine, R. L., a White, E. (2011). Escape Gaps for velvet crabs (*Necora puber*); stock and economic benefits for the catching sector. Marine Scotland Science. Mawrth 2011. NAFA Marine Centre. Turner, R. A., Hardy, M. H., Green, J., a Polunin, N. V. C. (2009). Defining the Northumberland Lobster Fishery. Adroddiad i Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd, Llundain.